

North Wales Corporate Joint Committee (CJC) Standard Purchase Order Terms & Conditions

“Goods” include materials. “Seller” includes supplier/ service provider/works contractor. The words “services and works” shall be given their widest natural meaning and for the purpose of this Order reference to services shall include reference to works. ‘Order’ means the order placed by the CJC for the Goods and or Services concerned.

1. Subject to condition 12 below acceptance of this Order by the Seller will signify acceptance of these terms and conditions.
2. Order numbers must be quoted on all delivery notes invoices and correspondence.
3. No payment will be made for goods or services unless and until the goods and or services have been provided in accordance with the terms of the Order and an invoice is supplied or where applicable received electronically via the xchangewales system. If the Order specifies that the invoice is to go to an address other than the address to which the goods are delivered or services performed, no payment will be made until such invoice is received at the correct address.
4. Any known variation in price quality or quantity to that stated in this Order must be advised and agreed in writing before the goods are despatched or services performed – otherwise no payment will be made.
5. Payment will be made only to the Seller named on the Order.
6. The Seller shall use all due skill, care and diligence in performing the contract.
7. All goods supplied or services performed will comply with the highest British Standards Institute standard (or European equivalent) for that type of goods or service or the Seller informs the CJC that there no such pertinent standard in which case the goods and services will comply with best ‘industry standard’. and in either case the CJC agrees this in writing in advance of acceptance of the Order.
8. The Seller warrants that the Goods comply with the description in the Order, that the Goods are of good quality and material. that the supply of goods under the Order will not infringe any third party intellectual property rights that the Seller will fully indemnify the CJC against any breach of this clause.
9. The Seller will not assign the benefit of the Order or contract or any part of it to any other person without the CJC's prior written consent and in supplying the services or goods shall not do anything to bring the CJC into disrepute.
10. Waiver or amendment by the CJC of any one or more of these terms must be confirmed in writing by the CJC and otherwise will be of no effect and any such waiver or amendment on one occasion shall not imply that waiver or amendment will be forthcoming or is agreed on any other occasion.
11. The Seller’s ‘standard terms and conditions’ will not apply to this Order.
12. These documents comprise the entire agreement between the CJC and the Seller; and save as provided in the following sentence no effect will be given to any other term or terms whether oral or in writing. In the event that a specific services, works or goods written contract, relating to the services or goods that form the subject matter of the order has been prepared by the CJC and signed/sealed by a duly authorised signatory of the CJC then the terms of such specific written contract shall prevail. Sellers are responsible for checking who in the CJC is duly authorised to sign orders / contracts

13. The contract shall be governed by English and Welsh law and the parties submit to the exclusive jurisdiction of the English and Welsh courts.
14. All goods will be delivered carriage paid to the location indicated on the face of the Order otherwise they may be rejected.
15. The Seller will obtain a receipt for all goods delivered and supply a copy to the CJC upon request and in the event of failure to do so the CJC will not be obliged to pay for the goods until evidence of delivery is provided.
16. Where a delivery time and/or date is specified on the Order, time and date of delivery will be of the essence of the contract. In the absence of a delivery date being specified on the Order, the delivery date will be 3.00pm on the 14th day following the date of the Order in which case that date will be of the essence of the contract. In the latter case if the 14th day falls on a day when the CJC offices are closed the delivery date will be the following day when the CJC offices are open. It is the responsibility of the Seller to find out when the CJC offices are open.
17. The property in goods and materials delivered in respect of this Order will pass to the CJC upon delivery. However, if payment or part payment is made with this Order or in advance of delivery, property in the goods will pass to the CJC at the time of such payment. Once property has passed to the CJC the Seller will have no lien or other rights in the goods or materials.
18. Prices quoted by the Seller are deemed to be inclusive of delivery charges, packaging and unloading unless the contrary is clearly specified and agreed in writing by the CJC.
19. Where the Seller requires a pallet of packaging to be returned this will be clearly specified on the delivery note and invoice, otherwise the CJC shall be at liberty to reuse or dispose of it as it thinks fit without accounting to the Seller.
20. Any goods delivered which do not match the description specified in the Order will be removed from the CJC's premises by the Seller at the Seller's expense within 48 hours of delivery and if the Seller fails to do so the CJC may arrange to return the goods at the Seller's expense. If the goods are identified as not matching the description in the Order at the time of attempted delivery, the goods will be removed forthwith from the CJC's premises at the Seller's expense.
21. Any loss of, damage to or defect in the goods which is not caused by the CJC will be made good by the Seller at the Seller's expense within 14 days of receipt of written notice of such from the CJC.
22. Hazardous goods will be clearly marked by the Seller as such with the international danger symbol with the name of the material in English. Such goods will also be packaged labelled and carried in accordance with UK law or internationally accepted agreements. Information in English as to the handling storage and proper use of such goods will be supplied on delivery. The Seller hereby indemnifies the CJC against any loss damage or injury occasioned to the CJC or any of its servants or agents if the Seller fails to comply with this term.
23. Payment or part payment for the goods by the CJC will not signify acceptance by the CJC that the goods are of the description quantity or quality ordered nor will such payment prejudice the CJC's right to reject such goods at a later date.
24. The Seller will provide all labour goods tools and equipment necessary to perform the service.
25. It is the Seller's responsibility to obtain confirmation in writing of on the job oral instructions.
26. The Seller will provide the service during normal daytime working hours.
27. Defects, which exist or appear within 12 months from date of completion of the service shall be made good by the Seller at the Seller's expense.
28. The Seller shall maintain adequate and accurate records of the service performed including time which will be submitted to the CJC at the end of each week the service is performed or at such other interval as may be agreed in writing.

29. The Seller will provide evidence of tax status upon demand.
30. The Seller will keep the workplace clean and tidy and will remove surplus goods or waste at regular intervals.
31. Prices quoted by the Seller are deemed to include all the Seller's travelling and subsistence expenses unless otherwise agreed.
32. The Seller will hold all relevant insurances related to the provision of the services.

Amodau a Thelerau Archeb Safonol Cyf-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)

Cynnwys "Nwyddau" ddeunyddiau. Cynnwys "Gwerthwr" ddarparwr/darparwr gwasanaeth/contractwr gwaith. Rhwir yr ystyr naturiol ehangaf posib i'r geiriau "gwasanaethau a gwaith" ac ar gyfer pwrpas yr Archeb hon, mae cyfeiriad at wasanaethau yn cynnwys cyfeiriad at waith. Golyga "Archeb" yr archeb a roddwyd gan y CBC am y Nwyddau neu'r Gwasanaethau perthnasol.

1. Yn ddibynnol ar amod 12 isod bydd derbyn yr Archeb hon gan y Gwerthwr yn dynodi ei fod yn derbyn yr amodau a'r telerau hyn.
2. Rhaid nodi rhif yr archeb ar bob danfoneb, anfoneb a gohebiaeth.
3. Ni wneir taliad am nwyddau na gwasanaethau oni bai a hyd nes y darperir y nwyddau neu'r gwasanaethau yn unol â thelerau'r Archeb ac y darperir anfoneb neu ble bo'n briodol y derbynnir anfoneb yn electronig drwy'r system xchangelwales. Os yw'r Archeb yn nodi y dylid anfon yr anfoneb i gyfeiriad gwahanol i'r cyfeiriad ble y danfonir y nwyddau neu ble yr ymgwymerir â'r gwasanaeth, ni wneir taliad hyd oni fydd y cyfryw anfoneb wedi'i derbyn yn y cyfeiriad cywir.
4. Rhaid hysbysu am unrhyw amrywiad yn y pris ansawdd neu nifer o'i gymharu â'r hyn a nodir yn yr Archeb hon a dylid ei gytuno yn ysgrifenedig cyn y danfonir y nwyddau neu cyn yr ymgwymerir â'r gwasanaeth – neu fel arall ni wneir y taliad.
5. Ni wneir y taliad ond i'r Gwerthwr a enwir ar yr Archeb.
6. Bydd y Gwerthwr yn defnyddio'i holl sgil, gofal ag ymroddiad dyledus wrth weithredu'r cytundeb.
7. Rhaid i'r holl nwyddau a gyflenwir neu'r gwasanaethau yr ymgwymerir â hwy gydymffurfio â safon uchaf Sefydliad Safonau Prydeinig (neu safon Ewropeaidd gyfwerth) ar gyfer y mathau hynny o nwyddau neu wasanaeth neu fel arall bydd y Gwerthwr yn hysbysu'r CBC nad oes safon berthnasol o'r fath ar gael ac yn y fath achos rhaid i'r nwyddau neu'r gwasanaethau gydymffurfio â 'safon gorau'r diwydiant' a pha un bynnag, bydd y CBC yn cytuno hyn yn ysgrifenedig cyn derbyn yr Archeb.
8. Mae'r Gwerthwr yn gwarantu bod y Nwyddau yn gydymffurfio â'r disgrifiad yn yr Archeb a bod y Nwyddau o ansawdd a deunydd da, na fydd cyflenwi nwyddau dan yr Archeb yn torri hawliau eiddo deallusol unrhyw drydydd parti a bydd yn rhaid i'r Gwerthwr indemnio'r CBC yn llawn yn erbyn torri unrhyw ran o'r cymal hwn.
9. Ni chaiff y Gwerthwr aseinio buddion yr Archeb neu'r contract neu unrhyw ran ohono i unrhyw berson arall heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y CBC o flaen llaw ac wrth gyflenwi'r gwasanaethau neu'r nwyddau ni wna unrhyw beth fyddai'n dwyn anfri ar y CBC.
10. Rhaid i'r CBC gadarnhau yn ysgrifenedig os bydd yn ildio'r hawl neu yn diwygio unrhyw un neu ragor o'r amodau hyn neu fel arall ni fydd dim effaith iddynt ac ni fydd y cyfryw ildiad hawl neu ddiwygiad ar un achlysur yn golygu y bydd yr ildiad hawl neu'r diwygiad hwnnw yn cael ei weithredu neu ei gytuno ar unrhyw achlysur arall.
11. Ni fydd 'telerau ac amodau safonol' y Gwerthwr yn berthnasol i'r Archeb hon.

12. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys y cyfan o'r cytundeb rhwng y CBC a'r Gwerthwr heblaw'r hyn a gynhwysir yn y brawddegau a ganlyn ni ellir gweithredu unrhyw amod neu amodau eraill pa un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Os bydd cytundeb ysgrifenedig unrhyw wasanaethau, gwaith neu nwyddau penodol yn ymwneud â'r gwasanaethau neu nwyddau sy'n destun yr archeb wedi'i baratoi gan y CBC ac wedi'i arwyddo/roi dan sêl gan lofnodwr awdurdodedig priodol y CBC, yna bydd telerau'r cyfryw gytundeb ysgrifenedig penodol yn trechu. Y Gwerthwyr sy'n gyfrifol am wirio pwy yn y CBC sydd wedi'i awdurdodi'n briodol i arwyddo archebion/cytundebau.
13. Bydd y cytundeb yn cael ei reoli gan gyfraith Cymru a Lloegr ac mae'r partïon yn ymollwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.
14. Rhaid i'r holl nwyddau gael eu danfon gyda'r cludiant wedi'i dalu i'r lleoliad a nodir ar wyneb yr Archeb neu fel arall fe allent gael eu gwrthod.
15. Bydd y Gwerthwr yn cael derbynneb am yr holl nwyddau a ddanfonir ac yn darparu copi i'r CBC os gwneir cais amdano ac os na ellir gwneud hynny ni fydd yn rhaid i'r CBC dalu am y nwyddau hyd oni ellir darparu tystiolaeth fod y nwyddau wedi'u derbyn.
16. Os bydd amser a/neu ddyddiad pryd y disgwylir derbyn yr Archeb wedi'i nodi arni, yna bydd amser a dyddiad pryd y'i derbynnir yn hanfodol i'r cytundeb. Os na fydd dyddiad derbyn wedi'i nodi ar yr Archeb, yna bydd y dyddiad derbyn yn 3.00pm ar y 14eg diwrnod yn dilyn dyddiad yr Archeb ac yn yr achos hwn bydd y dyddiad yn hanfodol i'r cytundeb. Yn yr achos olaf, os bydd y 14 eg diwrnod yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd swyddfeydd y CBC ar gau yna bydd y dyddiad derbyn ar y diwrnod canlynol pan fydd swyddfeydd y CBC ar agor. Cyfrifoldeb y Gwerthwr yw darganfod pryd y mae swyddfeydd y CBC ar agor.
17. Bydd yr eiddo yn y nwyddau neu'r deunyddiau a ddanfonir mewn perthynas â'r Archeb hon yn trosglwyddo i'r CBC pan gânt eu derbyn. Er hynny, os gwneir taliad neu randaliad gyda'r Archeb hon neu cyn i'r Archeb gael ei danfon, bydd eiddo yn y nwyddau yn trosglwyddo i'r CBC pan wneir y cyfryw daliad. Unwaith y bydd yr eiddo wedi'i drosglwyddo i'r CBC ni fydd gan y Gwerthwr unrhyw hawlrwym na hawliau eraill i'r nwyddau neu'r deunyddiau.
18. Ystyrir y bydd y prisiau a roddir gan y Gwerthwr yn cynnwys taliadau cludiant, pacio a dadlwytho oni bai y nodir yn glir yn y cytundeb ac a gytunwyd yn ysgrifenedig gan y CBC.
19. Os bydd y Gwerthwr angen i'r CBC ddychwelyd palet o ddeunydd pacio rhaid nodi hyn yn glir ar y ddanfoneb a'r anfoneb neu fel arall bydd rhydd hynt i'r CBC ei ailddedfnyddio neu ei waredu fel yr ystyria'n briodol heb fod yn atebol i'r Gwerthwr.
20. Rhaid i unrhyw nwyddau a ddanfonir nad ydynt yn cyfateb â'r disgrifiad a nodir ar yr Archeb gael eu symud o eiddo'r CBC gan y Gwerthwr ar draul y Gwerthwr o fewn 48 awr ar ôl iddynt gael eu danfon ac os bydd y Gwerthwr yn methu â gwneud hyn gall y CBC drefnu i'r nwyddau gael eu dychwelyd ar draul y Gwerthwr. Os gwelir nad yw'r nwyddau'n cyfateb â'r disgrifiad ar yr Archeb pan geisir eu danfon, bydd yn rhaid symud y nwyddau oddi ar eiddo'r CBC ar unwaith ar draul y Gwerthwr.
21. Bydd unrhyw golled neu ddifrod i'r nwyddau neu nam arnynt na chafodd ei achosi gan y CBC yn cael ei unioni gan y Gwerthwr ar ei draul ei hun o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig ynghylch hyn gan y CBC.
22. Rhaid i'r Gwerthwr farcio unrhyw nwyddau peryglus yn glir gyda'r symbol rhyngwladol ar gyfer perygl gydag enw'r deunydd wedi'i nodi yn Saesneg. Yn ogystal, rhaid i'r fath nwyddau gael eu pacio, eu labelu a'u cludo yn unol â chyfraith y DU neu gytundebau cydnabyddedig rhyngwladol. Pan gaiff y fath nwyddau eu derbyn rhaid cynnwys gwybodaeth yn Saesneg ar y ffordd gywir i'w trin, eu storio a'u defnyddio. Drwy hyn mae'r Gwerthwr yn indemnio'r CBC yn erbyn colled neu ddifrod sy'n cael ei beri i'r CBC neu unrhyw un o'i weision neu asiantau os yw'r Gwerthwr yn methu cydymffurfio â'r amod hwn.

23. Nid yw taliad neu randaliad am nwyddau gan y CBC yn dangos bod y CBC yn derbyn bod y nwyddau o'r un disgrifiad, nifer neu ansawdd â'r rhai a archebwyd ac ni fydd y fath daliadau yn tanseilio hawl y CBC i wrthod y fath nwyddau ymhen amser i ddod.
24. Rhaid i'r Gwerthwr ddarparu'r holl lafur, nwyddau, offer a chyfarpar angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth.
25. Cyfrifoldeb y Gwerthwr yw caffael cadarnhad ysgrifenedig am unrhyw gyfarwyddiadau ar lafar am y gwaith.
26. Rhaid i'r Gwerthwr ddarparu'r gwasanaeth yn ystod oriau gwaith arferol yn ystod y dydd.
27. Rhaid i unrhyw ddiffygion sy'n bodoli neu'n ymddangos o fewn 12 mis o'r dyddiad y cwblheir y gwasanaeth gael eu hunioni gan y Gwerthwr ar ei draul ef ei hun.
28. Rhaid i'r Gwerthwr gadw cofnodion digonol a chywir o'r gwasanaeth a gyflawnwyd gan gynnwys yr amser a gymerwyd a rhaid eu cyflwyno i'r CBC ar ddiwedd pob wythnos yr ymgymeirir â'r gwasanaeth neu unrhyw gyfnod amser arall y cytunwyd arno yn ysgrifenedig.
29. Rhaid i'r Gwerthwr ddarparu tystiolaeth o'i statws treth pan ofynnir amdano.
30. Rhaid i'r Gwerthwr gadw'r gweithle yn lân a threfnus a bydd yn rhaid iddo symud unrhyw nwyddau sydd yn weddill neu unrhyw wastraff yn rheolaidd.
31. Ystyrir y bydd y prisiau a ddyfynnir gan y Gwerthwr yn cynnwys holl gostau teithio a chostau cynhaliaeth oni chytunir fel arall.
32. Rhaid i'r Gwerthwr gael yr holl yswiriant perthnasol er mwyn darparu'r gwasanaethau.